| | Cymraeg | | English |
|---|---|---|---|
| | Cofnodion **Cyfarfod Cyngor Cymuned Llangrannog** a gynhaliwyd ar y 4ydd o Orffennaf yn Neuadd Pontgarreg. | | Minutes of **Llangrannog Community Council** Meeting held on Monday 4th of July at 7.30pm at Neuadd Pontgarreg. |
| | **YN BRESENNOL:** Cynghorydd Wendy Roberts (Cadeirydd) Cyngh Deio Evans, Heledd Clayton, Gareth Jones, Lynn Davies a'r Cynghorydd Sir Gareth Lloyd | | **PRESENT:** Councillor Wendy Roberts (Chair) Councillors Deio Evans, Heledd Clayton, Gareth Jones, Lynn Davies and County Councillor Gareth Lloyd |
| | **(7.30- 8.45yh)** | | **(7.30 – 8.45pm)** |
| 26 | **Ymddiheuriadau**<br>Derbyniwyd ymddiehuriadau oddi wrth y Cynghorwyr Morlais Davies, Cynyr Ifan a Gari Jones | 26 | **Apologies**<br>Councillors Morlais Davies, Cynyr Ifan and Gari Jones had sent their apologies. |
| 27 | **Datgelu Buddiannau Personol/Buddiannau sy'n Rhagfarnu**<br>32.01 Datgelodd y Cynghorydd Deio Evans buddiant personnol yn y cais cynllunio yma. | 27 | **Disclosure of Personal Interest/Prejudicial Interest**<br>32.01 Councillor Deio Evans declared a personal interest in this planning application. |
| 28 | **Cadarnhau Cofnodion cyfarfod 6ed o Fehefin**<br>28.01 Cadarnhawyd bod cofnodion y cyfarfod a cynhaliwyd ar y 6ed o Fehefin yn gofnod cywir. | 28 | **Minutes of the Meeting held on 6th of June**<br>28.01 The minutes of the meeting held on 6th of June were confirmed as a true record. |
| 29 | **Materion yn codi**<br>120.09 Arwyddion maes Parcio Llangrannog – wedi cyrraedd. Mi fydd yy Cynghorydd Gari Jones yn rhoi nhw I fyny.<br><br>12.08 Cwn ar draeth Llangrannog – dal yn broblem. Wedi derbyn ymateb oddi wrth CSC yn nodi fod map ar gael ar wefan Darganfod Ceredigion. Clerc i edrych a byddai modd cal copi A4 lliw ac efallai dosbarthu o amgylch y busnesau lleol i helpu'r hyrwyddo'r neges.<br><br>21.01 A220281 - Brynmorfa, Llangrannog, Llandysul, Ceredigion, SA44 6SW -wedi cael ei wrthod gan yr Adran Cynllunio. | 29 | **Matters arising**<br>120.09 Llangrannog car park signs – signs have arrived. Councillor Gari Jones will be putting these up.<br><br>12.08 Dogs on Llangrannog Beach – it is still an issue. CCC have replied to the email to state that there is a map available on the Discover Ceredigion website. Clerk to enquire if a A4 colour map would be clear enough possibly distribute amongst local businesses.<br><br>21.01 A220281 - Brynmorfa, Llangrannog, Llandysul, Ceredigion, SA44 6SW – had been refused by the planning department. |
| 30 | **Adroddiad y Cynghorydd Sir**<br>Wedi rhoi adborth i'r Swyddog priodol am y newidiadau cyflymder o 30ya i 20mya. Mi fydd ymghynghoriad gyda'r Cynghorau Cymuned hwyrach yn y flwyddyn.<br>Mae baneri a sticeri ar gyfer Eisteddfodd wedi cyrraedd. Adroddodd y Cyngh Deio Evans fod Gwyn James yn ei dosbarthu. | 30 | County Councillor's Report<br>Provided feedback to the appropriate Officer on the speed changes from 30ya to 20mph. There will be consultation with the Community Councils later in the year.<br>Banners and stickers for the Eisteddfod have arrived. Cllr Deio Evans reported that Gwyn James was distributing them. |

31 **Cyllid**
CYTUNWYD I dalu'r canlynol;
Balans agoriadol £9,522.13
31.01 Bateri a Pads Diffibriliwr - £278.40
31.02 Zoom - £47.96
31.03 Cyflog Clerc Gorffennaf - £137.53
31.04 HMRC Gorffennaf - £34.20
31.05 Cyfraniad Laptop - £233.00 Balans wrth gau £8,791.04

*Sylwir fod eitem 31.01 a 31.02 wedi talu cyn y cyfarfod

Diweddariad Natwest – ers I'r clerc anfon cwyn swyddogol drwy law AS Ben Lake mae'r banc nawr bron a gorffen ei ymchwiliad. Fel rhan o'r broses mae'r banc wedi ymddiheirio am yr amser mae hyn wedi cymryd a'r anghyfleuster. Mae Natwest yn cynnig £250.00 iawndal. CYTUNWYD i dderbyn hyn.

31 **Finance**
It was AGREED to pay the following;
Opening Balance £9,522.13
31.01 Defibrillator Pads and Battery - £278.40
31.02 Zoom - £47.96
31.03 Clerk Salary July - £137.53
31.04 HMRC July - £34.20
31.05 Laptop Contribution - £233.00 Closing Balance £8,791.04

*note items 31.01 & 31.02 have been paid prior to the meeting*

Natwest update – since the clerk sent an official complaint through MP Ben Lake the bank is now almost finishing its investigation. As part of the process the bank has disengaged for the time this has taken and the inconvenience. Natwest is offering £250.00 compensation. It was AGREED to accept this.

32 **Ceisiadau Cynllunio**
32.01 A220355 - Bronallt, Llangrannog, Llandysul, SA44 6AH 32 Planning –dim gwrthwynebiad.

32 **Planning Applications**
32.01 A220355 - Bronallt, Llangrannog, Llandysul, SA44 6AH – no objections.

33 **Ceisiadau am gymorth ariannol –**
Dim ceisiadau

33 **Request for financial assistance**
No requests.

34 **Gohebiaeth**
34.01 Arolwg Tai Lleol – Fe aeth y Cynghorydd Gareth Jones i'r cyfarfod diweddar a gynhaliwyd yn Neuadd Caerwedros. Y bwriad yw casglu gwybodaeth sylweddol drwy arolwg y gellir ei gwblhau mewn tair ffordd;
Copi papur
Cod QR
Ar-lein
Mae angen dosbarthu'r arolwg yn unol â hynny. Y Clerc i gysylltu â'r trefnydd am gopi electronig fel y gellir ei rannu ar wefan y Cyngor Cymuned ac ar wahanol grwpiau cyfryngau cymdeithasol.

34.02 Arwydd Capel Ffynnon / Llangrannog a Pontgarreg - adroddwyd bod y pyst bysedd i fyny o'r Neuadd ym Mhontgarreg wedi torri. Dylent bwyntio tuag at Gapel Ffynnon / Llangrannog / Pontgarreg. Clerc i adrodd drwy Clic.

34.03 Diffibriliwr Blaencelyn a Neuadd Pontgarreg – CYTUNWYD i brynu padiau newydd a batri ar gyfer y Defib ym Mlaencelyn a hefyd i brynu bocs newydd ar gyfer y diffibriliwr yn Neuadd Pontgarreg.

34.04 Cynrychiolaeth yr Awdurdodau Llai ar Gyrff Llywodraethol Ysgol T Llew Jones – clerc i cysylltu gyda'r Cynghroydd Cynyr Ifan i drafod hyn.

34 **Correspondence**
34.01 Local Housing Survey – Councillor Gareth Jones attended the recent meeting held at Caerwedros Hall. The intention is to collect significant information through a survey which can be completed in three ways;
Paper copy
QR code
Online
The survey needs to be distributed accordingly. Clerk to contact the organiser for an electronic copy so it can be shared on the Community Council's website and on various social media groups.

34.02 Sign for Capel Ffynnon / Llangrannog / Pontgarreg – it was reported that the finger posts up from the Hall at Pontgarreg have broken. They should point towards Capel Ffynnon / Llangrannog / Pontgarreg. Clerk to report via Clic.

34.03 Defibrillator at Blaencelyn and Pontgarreg Hall – it was AGREED to buy new pads and a battery for the Defib at Blaencelyn and also to purchase a new box for the defibrillator at Pontgarreg Hall.

34.04 Representation of the smaller authorities on the Governing Body of Ysgol T Llew Jones – clerk to contact Councillor Cynyr Ifan to discuss this.

| | | | |
|---|---|---|---|
| | 34.05 Hysbyseb Cyfethol – CYTUNWYD i greu hysbyseb cyfethol a'i rhannu ar cyfryngau cymdeithasol ac ar wefan y Cyngor Cymuned. | | 34.05 Co-option Notice – It was AGREED to create a co-option advert and share it on social media and the community council website. |
| | 34.06 Llythyr gair o ddiolch AS Ben Lake - nodi | | 34.06 Letter of thanks from MP Ben Lake – noted |
| | 34.07 Hyfforddiant Cynghorwyr – Clerc wedi atgoffa Cynghorwyr bydd rhaid cyhoeddi rhaglen hyfforddiant felly mi fydd angen i Cynghorwyr fynychu hyfforddiant. | | 34.07 Councillor Training - Clerk reminded Councillors a training programme will have to be published so Councillors will need to attend training. |
| | 34.08 Hyfforddiant y Clerc – gofynnodd y clerc am cefnogaeth y Cyngor wrth iddi ceisio cael lle ar hyfforddiant CILCA ar gyfer Clercod. CYTUNWYD i cefnogi'r clerc a dymunwyd yn dda iddi. | | 34.08 Clerk Training - the clerk sought the Council's support in seeking a place on CILCA training for Clerks. It was AGREED to support the clerk and the wished her well. |
| | 34.09 Diweddariad Cyfarfod Pwyllgor Ceredigion – Un Llais Cymru. Yn y cyfarfod diwethaf derbyniwyd cyflwyniad gan Phil Hill - Rheolwr CPR a Diffibrilwyr Cymunedol Un Llais Cymru. | | 34.09 Update following One Voice Wales Area Meeting - At the last meeting a presentation was received from Phil Hill - One Voice Wales CPR and Community Defibrillators Manager. |
| 35 | **Materion i'w drafod ar agenda y cyfarfod nesaf**<br>Trefnu cael cwmni i torri porfa o amgylch y feinciau o fewn y Cymuned oherywdd newid mewn amgylchiadau aelod or cymuned sydd yn gwneud ar hyn o bryd. | 35 | **Matters to discuss on next month's agenda**<br>Arrange for a company to cut grass around the benches within the Community amid a change in circumstances of a member of the community who is currently doing so. |
| 36 | **Trefniadau'r Cyfarfod Nesaf**<br>Cyfarfod nesaf nos Lun 5ed o Fedi am 7.30yh yn Neuadd Pontgarreg / Zoom. | 36 | **Arrangement for next meeting**<br>Next meeting to be held on Monday 5th of September at 7.30pm at Pontgarreg Hall/ Zoom. |